**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Medi 2024

Annwyl Gadeirydd

**Deiseb P-06-1390 Rhoi diwedd ar bob bwyd â chymhorthdal yn y Senedd ac i staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol**

Diolch am eich gohebiaeth ynghylch y Ddeiseb uchod.

Mae gwasanaethau arlwyo ar gael mewn pedair swyddfa yn ystad weinyddol Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i'r darparwr arlwyo fodloni set gymhleth a heriol o feini prawf gweithredol, gan gynnwys safonau rhagorol o ran arlwyo dan gontract – yn enwedig mewn perthynas ag amcanion craidd y contract:

- Defnyddio a hyrwyddo cynhyrchion bwyd a diod o Gymru a chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd o Gymru;
- Iechyd a llesiant; a
- Chefnogi Masnach Deg.

Cynhelir proses dendro gystadleuol gadarn ar gyfer contract arlwyo Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y contract yn darparu gwerth am arian i Lywodraeth Cymru a defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu tuag at gost y gwasanaeth arlwyo er mwyn hybu'r manteision cadarnhaol ehangach o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i Gymru, gan hefyd fod yn gystadleuol â gwasanaethau tebyg ar y stryd fawr ac yn fforddiadwy i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r cyfraniad tuag at gost y gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach yn hytrach na gostwng prisiau fel budd staff canfyddedig.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae'r contract arlwyo yn cynnig cyfrwng i gynnyrch busnesau bach a chanolig yng Nghymru gael ei achredu gyda dosbarthwyr bwyd cydnabyddedig. Mae hyn yn ei droi yn rhoi cyfle iddynt gyflenwi contractau eraill (yng Nghymru a'r tu hwnt) ac yn creu cyfleoedd busnes gyda chwmnïau eraill sy'n defnyddio'r dosbarthwyr bwyd.

Ar hyn o bryd, tua 80% o gyfanswm gwariant y contract yw gwariant ar gynhyrchion a gwasanaethau cysylltiedig ag arlwyo sy'n darparu manteision ehangach i Gymru. Mae'r contract arlwyo hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd ein pedair swyddfa sydd ag arlwyo ar y safle – Caerdydd; Merthyr Tudful; Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i gyfrannu tuag at gost ei gwasanaeth arlwyo, byddai hynny, yn anochel, yn cael effaith negyddol ar y manteision ehangach y mae'n eu darparu i Gymru ar hyn o bryd – gan gynnwys y posibilrwydd o ddiswyddiadau. Nid yw'r cymhorthdal ei hun yn fodd o sicrhau prisiau rhatach i staff a'r rhai sy'n defnyddio'r contract, ond o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i fusnesau bach a chanolig ledled Cymru drwy wneud yn siŵr bod yr arian sy'n cael ei wario ar yr ystad weinyddol yn cael ei sianelu tuag atynt.

Mae gwasanaethau arlwyo yn y Senedd yn gweithredu'n annibynnol o dan gontract arlwyo Senedd Cymru ac, o'r herwydd, bydd angen i'r corff hwnnw ymateb mewn perthynas â'i wasanaeth ef.

Yn gywir,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en